tafod elái

NADOLIG 1988 Pris 20c RHIF 33

CWPAN YR ŴYL I GWM RHYMNI

Enillydd y Gwpan am gynhyrchiad gorau Gŵyl Ddrama Tafod Elái eleni oedd Cwmni Drama Ysgol Gyfun Cwm Rhymni gyda'i cyflwyniad o 'Darganfod'. Yn ôl y beirniad, Mr John Hefin roedd yna aflaith a hiwmor yn y cyflwyniad ac roedd yn amlwg fod y gynulleidfa wedi mwynhau bob eiliad o'r ddrama. Yn ogystal ag ennill y Cwpan rhoddwyd y Tlws am gyflwyniad gorau yr Ysgolion Cyfun i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Dyfarnwyd Tlws yr Oedolion i Gwmni Drama Clwb y Bont am ei cynhyrchiad o 'Troi'r Byrddau', comedi am dri aelod o'r "werin gyffredin, ffraeth" yn troi'r byrddau yn erbyn eu cyflogwr milain.

Bu'r Ŵyl yn ffodus iawn i gael gwasanaeth Mr John Hefin, un o brif gynhyrchwyr drama teledu yng Nghymru, ac roedd nid yn unig yn tynnu o'i broflad ym myd teledu ond hefyd o'i fagwraeth ym myd y cwmniau drama amatur yn Sir Aberteifi.

Roedd cynulleidfaoedd y dair noson wedi mwynhau a gwerthfawrogi cyflwyniadau'r wyth cwmni drama. Yn bennaf gyfrifol am lwyddiant yr ŵyl eto eleni oedd Colin Williams ac mae'n amlwg fod paratoi manwl wedi sicrhau gŵyl o'r radd flaenaf.

Y GENI

Daeth braw dros wyneb llawen - yr Iesu
Ym mhreseb yr ychen;
Y braw o deimlo drwy bren
Ei wely ias yr hoelen.

Rhys Dafis.

SIOM YN YR YSTADEGAU

Dim ond 19% o ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanhari sy'n defnyddio'r Gymraeg ar yr iard, yn ôl arolwg a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y rhaglen 'Y Byd ar Bedwar'. Mae 79% o ddisgyblion Rhydfelen yn gwneud hynny.

Gofynnwyd naw o gwestiynau i sampl bychan o ddisgyblion Ysgolion Rhydfelen, Llanhari a Glan-taf ynglŷn â'u harferion ieithyddol gan dîm o dan arweiniad yr Athro Harold Carter o Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Er nad oedd yr atebion yn y rhan fwyaf o achosion yn annisgwyl, mae'n debyg bod rhai ohonynt wedi peri siom i athrawon a rhieni.

Parhâd ar dudalen 2

TU MEWN

Gŵyl Gerdd Dant.....5
Yr Ifaciwis.....6
Yr Ŵyl Ddrama.....10
Crwydro Pontypridd..14
Stori Gyfres.....17
Chwaraeon.....19
Ffau'r Plant.....20

SBEC BRO NADOLIG TU MEWN

Golygyddol

Yn anffodus, doedd dim byd yn annisgwyl yn y ffigurau a ddatgelwyd yn yr arolwg a gomisiynwyd gan ragien 'Y Byd ar Bedwar' ar safle'r Gymraeg ym mysg disgyblion ein hysgolion uwchradd dwyieithog. Mae'r diffyg Cymraeg ar yr lard yn Llanhari, er enghraifft, yn wybyddus i unrhyw riant sydd â phlentyn yn ddisgybl yno.

Dydw i ddim am wneud esgusodion, ond mae rhai cwestiynau y dylid eu gofyn. Faint o eslampl, mewn difrif, yr ydan ni fel rhieni o Gymry Cymraeg yn ei rol? Faint o Gymraeg sy'n cael ei siarad, er enghraifft, yng nghyfarfod-ydd rhieni yr ysgolion Cymraeg? Mi wn i am un ysgol Gymraeg leol lle roedd wyth neu naw o rieni yn eu cynnig eu hunain yn llywodraethwyr yn ddiweddar - a dim ond un o blith y rheini feddylfodd am ysgrifennu pwt yn Gymraeg amdani el hun ar y ffurflen, er bod nifer o'r lleill yn Gymry Cymraeg. Mae fel petaem ni wedi penderfynu mai rhywbeth i blant yw'r Gymraeg, nid rhywbeth i'w defnyddio ymhlith oedolion cyfrifol sydd â phethau o bwys i'w trafod. A 'dyw agwedd fel yna'n gwneud dim i godi statws yr laith ymhlith pobl lfanc (nac i annog oedolion eralll i'w dysgu, chwaith).

Un cwestiwn arall na chafodd el ofyn i'r disgyblion yn yr arolwg oedd, 'Oeddech chi'n siarad Cymraeg ar yr lard yn yr ysgol gynradd?' Byddai'r atebion wedi bod yn bur ddadlennol. Rhaid i'r arferiad o siarad Saesneg â chyd-ddisgyblion gael el dorri yn ystod y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol gynradd. Mae hi'n anodd lawn newid y patrwm erbyn cyrraedd yr ysgol uwchradd. Byddai'n ddiddorol lawn dadansoddi arferion leithyddol yr ysgolion cynradd sy'n bwydo Llanhari a Rhydfelen.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

tafod elái

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 28fed o Ionawr
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
14 Ionawr 1989

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 0222 890040

Cyhoeddir **Tafod Elái** gan
y Bwrdd Golygyddol
gyda chefnogaeth ariannol
Cymdeithas Celfyddydau
De-Ddwyrain Cymru a'r
Swyddfa Gymreig.
Argraffwyd gan
Gwmni Three Arch Press.

Os oedd neges gan yr arolwg i'w gynnig, yr un hen neges oedd hi: dydy brolio bod ein hardal ni wedi gweld twf aruthrol yn ddiweddar yn nifer y plant sy'n cael addysg Gymraeg ddim yn ddigon. Mae'n rhaid celslo sicrhau bod y plant hynny'n cael cyfle i ddod i defnyddio'r laith yn naturiol fel cyfrwng cymdeithasol hefyd.

Dyna un o'r rhesymau pam y sefydlwyd Clwb-y-Bont, wrth gwrs. Ac mae'n braf cael sylwi ar ddau ddatblygiad calonogol arall yn cael eu cofnodi yng ngholofnau'r Tafod y mis yma. Da gweld yr Urdd yn symud ymlaen i sefydlu adrannau newydd yn y cylch. A hyfryd oedd gweld cymaint o leuenctid yn yr Ŵyl Ddrama - nifer ohonynt yno bob un o'r tair noson. Dyna ddau gam bychan tuag at sefydlu sail gadarnach a dyfnach i'r laith yn y cylch.

SIOM YN YR YSTADEGAU (parhâd)

Roedd 58% o blant Glan-taf yn telmlo eu bod yn gallu siarad Cymraeg cystal â Saesneg os nad yn well. Yn Llanhari, roedd y canran yn 46%, ac yn Rhydfelen yn 61%. Dim ond 15% o blant Rhydfelen oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn y cartref. Roedd y ffigur yn 21% yn Llanhari. Er hynny, roedd gan 50% o ddisgyblion Llanhari, yn ôl canlyniadau'r arolwg, o leiaf un rhiant a oedd yn siarad Cymraeg. Os oes coel ar y ffigurau hyn, mae canran fawr o rieni Llanhari yn Gymry Cymraeg ac yn methu sicrhau bod eu plant yn siarad Cymraeg â nhw yn y cartref.

Gofynnwyd i'r disgyblion a oeddent yn siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol. Atebodd 26% yn Rhydfelen eu bod yn gwneud hynny, dim ond 13% yn Llanhari (35% yng Nglan-taf). Derbynnir bod y ffigurau'n adlewyrchu'r diffyg cyfle i gymdeithasu yn y Gymraeg y tu allan i ysgolion yr ardal ond mae yna awgrym cryf o ddiffyg awydd i wneud hynny hefyd.

Roedd y ffigurau ynglŷn â darllen a gwylio rhaglenni Cymraeg ar y teledu yn fwy calonogol. Ond casgliad Harold Carter oedd bod y ffigurau'n dangos nad oedd sail gadarn na dwfn i'r Gymraeg yn y cylch.

tafod elái

CALENDR 1·9·8·9

Mae'r Calendrau'n brin iawn
Os oes gennych rai
sbâr ffoniwch
Colin Williams
(0222 890979)

Os nad ydych wedi cael un falle gewch chi brynu un oddi wrth Colin - mae nhw fel aur!

GWOBRAU ANIMEIDDIO YSGOLION CYMRU

Cynhaliwyd cinio arbennig yn yr Holiday Inn, Caerdydd ar nos Lun 28 Tachwedd pan gyflwynwyd Gwobrau Bywddariunio Prydain am y tro cyntaf. Noddwyd y noson gan Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Sir De Morgannwg ac S4C ac anrhydeddwyd gweithwyr ym maes animeiddio ym mhob categori yn cynnwys ffilmiau i blant, hysbysebion a graffeg.

Fel rhan o'r noson gwahoddwyd nifer o blant ysgol i dderbyn eu gwobrau mewn cystadleuaeth arbennig a drefnwyd gan y Western Mail ac S4C. Roedd y gystadleuaeth yn agored i holl ysgolion Cymru, gyda gwobrau arbennig ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Cyflwynwyd y gwobrau i'r plant gan Owen Edwards, Cyfarwyddwr S4C a John Humphreys, Golygydd y Western Mail.

Dyfarnwyd gwobr o £100 i Kelly Skelton, Melanie Fudge, Melanie Morgan a Kelly Thomas o Ysgol Heol y Celyn Pontypridd am ddod yn all yn y gystadleuaeth i Ysgolion Cymradd Cymraeg.

Digwyddiadur

Nadolig

Rhagfyr 10.
Taith Ddirgel Teulu Twm.
Rhagfyr 10.
Ffair sborion Cymdeithas yr Iaith yng Nglwb y Bont am 10 y bore.
Rhagfyr 10.
Sioe Cefin Roberts yng Nglwb y Bont am 8.30pm.
Rhagfyr 13.
Gwasanaeth Carolau Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant yn yr Eglwys am 1.45pm.
Rhagfyr 13,14 a 15.
Cyngerdd Nadolig Plant Ysgol Creigiau.
Rhagfyr 14.
Yr Urdd yn canu Carolau yng Nghanolfan Siopa Tonteg rhwng 4 a 5 pm.
Rhagfyr 15.
Gwasanaeth Carolau'r Nadolig yng Nghapel Salem, Tonteg.
Rhagfyr 15.
Cyngerdd Nadolig Ysgol Gyfun Llanhari am 7.30pm.
Nos Wener Rhagfyr 16.
Parti Nadolig Clwb y Bont gyda Bwchadanas ac eraill am 8.30.
Rhagfyr 17
Parti Nadolig y Plant yng Nghlwb y Bont am 1.30pm.
Rhagfyr 18.
Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul Gymraeg Salem, Toneg am 10.30.
Rhagfyr 18.
Gwasanaeth Nadolig y Plant am 10.30, Tabernacl Efail Isaf.
Gwasanaeth Plygain am 5pm.
Nos Sul, Rhagfyr 18.
Cyngerdd Nadolig yr Urdd yn y Ganolfan Hamdden, Llantrisant.
Rhagfyr 20.
Bydd "Y Proclaimers" yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd.
Rhagfyr 23.
Parti Nadolig Teulu Twm.
Rhagfyr 24.
Gwasanaeth Plygain yng Nghapel Tabernacl Pontyclun - Cymdeithas Gymraeg Llantrisant.
Rhagfyr 24.
Gwasanaeth Nosŵyl y Nadolig am 11pm, Tabernacl Efail Isaf.
Rhagfyr 25.
Gwasanaeth Cymun Dwy-ieithog yng Nghapel Salem Tonteg am 10am.

Y Cymoedd

Daw egin ir o dir du - a'i wreiddiau
O ruddin a chrafu;
Ffenics o lwch yn ffynnu
Rydd obaith i henlaith hy.

Englyn o waith tîm Clwb y Dwrlyn a dynnodd sylw'r Meuryn, Geraint Hughes a'r gynulleidfa hyddysg yn Ymryson y Beirdd Gymdeithas Gymraeg Llantrisant yn ddiweddar.

Cartŵn *GER*

ARDDANGOSFA GILFACH GOCH

Ni feddyliodd neb y byddai 'ddoe' yr hen Gwm yn troi'n amgylchiad mor ddeniadol a rhamantus.

Naturiol oedd disgwyl gweld y plant yn sylwi a rhyfeddu wrth edrych ar bethau mor ddieithr, ond dipyn o sioc oedd canfod eu bod yn ddieithr i'w rhieni hefyd.

Fel mae arferion yn newid a diflannu mewn cyfnod o hanner canrif. Pwy fasa'n meddwl y byddai'r hen gwpan siafio'n creu y fath ddiddordeb!

Cwestiynnau dirif!

Pwy oedd yn gwisgo'r clocsiau? Ble roedd yr hen siopau? Beth oedd y tŷ powdwr? Beth oedd enw'r ysgol a'r fferm o dan y domen lo? Ble roedd y pererinion yn mynd? Ble roedd y capel cyntaf? Pwy agorodd y lefel lo gyntaf yn y Cwm?

Arwydd boddhaol bod diddordeb yn 'ddoe' wedi ei ennyn.

Nid oes 'heddiw' heb y 'ddoe'. Am y tro cyntaf daeth plant Gilfach Goch wyneb yn wyneb a'u gweiddiau. Syllu ar luniau o'r Cwm mewn gwahanol gyfnodau. Cyfnodau datblygiad a chynnydd y diwydiant glo, cyfnodau aur diwylliant a chrefydd, a chyfnodau dirwasgiad a dioddef. Pob darlun yn cyfiwyno stori a hanes.

Yn ychwanegol at y darluniau casgiwyd hen wisgoedd, crefftau, llyfrau, pamffledi, lampau, canwyllbrennau, cwiltiau a chreiriau coginio a gwaith tŷ o'r hen geginau.

Cafwyd hwyl wrth weld oedolion yn eu chwe a saith degau yn dangos i'r plant sut oedd defnyddio chwip a thop, ac olwyn a bachyn (hook and wheel). Cyfle gwych efallai i ail afael ym mhleserau'r dyddiau gynt.

Atyniad mawr oedd 'cwestiynau' a osodwyd i'r plant i'w hateb. Rhoi 'gwaith cartre' oedd y bwriad, ond cymaint oedd brwdfrydedd y plant fel na chafodd yr un unigolyn gyfle i osgoi gael ei holi. Honai rhai nad oeddynt wedi gweithio mor galed ers dyddiau ysgol.

Ie! y gorffennol yn swyno'r ifanc. Hwyl fawr oedd cael gwisgo'r hen 'gŵn nos a chap nos' wedi ei addurno fel yn yr oes o'r blaen. Gwisgo'r clocsiau a syllu'n fanwl ar ddarlun o hanes y Cwm trwy lygaid arlunydd modern. Ni chafodd dim ei anwybyddu. Bu'r arddangosfa yn achlysur godidog i sôn a siarad, a dwyn atgofion. Cofio'r corau mawr a'r corau meibion, dramau Cymreig ac eisteddfodau o fri. Dwyn i gof wythnosau o ddathlu cerddoriaeth a dramau yn Neuadd y Gweithwyr. Daeth nifer o alltudion yn ôl i fwynhau'r amgylchiad. Cyfle ardderchog i ail afael yn eu gwreiddiau ac i rannu atgofion.

Coron y cyfan oedd gweld y plant yn dychwelyd gyda'u rhieni. Parhad i holi a sgrifennu. Y rhieni yn rhyfeddu a dysgu am y tro cyntaf pwysigrwydd y gorffennol iddynt hwy a'u plant.

Golygodd yr Arddangosfa lawer iawn o waith casglu a threfnu, ond ni fu dim erioed mor foddhaol. Pawb yn dychwelyd adref wedi ennill gwerthoedd o'r gorffennol. Rhaid diolch i Misses Mair a Ray Thomas a Mr a Mrs Wyndham James am eu cymorth yn casglu, ac i aelodau ffyddlon y Guild am eu parodrwydd ar bob achlysur.

Na! Nid yw'r hen Gwm yn marw! Dywedwn yng ngeiriau Dafydd Iwan-

"Er gwaethaf pawb a phopeth
R'yn ni yma o hyd!"

K.O.Pritchard

DEWCH I

C.A. JONES & J.D. MORRIS LTD.
FFERYLLWYR

i sawru ein dewis eang o beraroglau.

Gwsanaeth datblygu ffilmiau 24 awr.

KODASNAP

Rhodd am ddim

gyda phob ffilm a ddatblygir yn mis Rhagfyr a Ionawr

Dewis rhwng
- Album Lluniau
- Fram 6" x4"
- Mwg arbennig

TONTEG 203479 LLANHARAN 226223

TONYSGUBORIAU 226114

CYNGERDD I'W GOFIO

Ar nos Sadwrn 12fed o Dachwedd cynhaliwyd Cyngerdd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni 1990. Roedd y cyngerdd yn uchafbwynt i fisoedd o baratoi gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a fu'n gyfrifol am hanner cyntaf y gyngerdd a Chôr Godre'r Garth a fu'n perfformio Requiem Haydn yn yr ail hanner.

Agorwyd y cyngerdd gan Gôr Bechgyn Dosbarthiadau 1 a 2 yr ysgol o dan eu harweinydd Mr Huw Thomas, Y Prifathro, a chafwyd perfformiad ysbrydoledig o dri charol Nadolig yn cynnwys un a gyfansoddwyd yn arbennig gan Michael Charnell-White, un o rieni'r ysgol.

Cafwyd cyflwyniadau llafar am wir ystyr y Nadolig gan Ddosbarth 4 ac am hanes taith y Doethion gan Ddosbarth 6. Bu lestyn ap Dafydd yn canu'r unawd 'Lie cerddi DI' Handel, a chafwyd Unawd telyn gan Bethan Davies a Deuawd telyn gan Eleri Thomas a Kate Millett.

Roedd y telynau yn chwarae rhan amlwg yn y perfformiad cyntaf o drefniant o dair Carol Cymreig a roddwyd gan Gôr Merched yr Ysgol Uchaf o dan eu harweinydd gwâdd Mr Wil Morus Jones. Ac i glol rhan gyntaf y cyngerdd cafwyd trefniant gan Dalwyn Henshall ar gyfer Côr Merched, o dri chytgan o'r Gloria gan Vivaldi.

Yn ail hanner y cyngerdd gwahoddwyd rhai o unawdwyr enwocaf Cymru, sef Yolande Jones, Menai Davies, Andrew O'Neill ac Eric Roberts i ymuno â Chôr Godre'r Garth i ganu'r Offeren yn D Leiaf gan Haydn, gyda Robert Court yn cyfeilio ar yr Organ. Mae'r Offeren yn cynnwys deg cytgan i'r côr a'r unawdwyr ac un rhan, 'Oen ein Duw' i'r unawdwyr yn unig.

Roedd y gwaith wedi cael ei baratoi yn drwyadl gan y Côr ac roedd y canu yn ysbrydoledig yn arbennig yn ystod yr Hosanna a'r diweddglo 'Dyro i ni Dangnef'. Yn ystod nifer o'r cytganau cafwyd cyferbyniad da rhwng y côr â'r unawdwyr. Llwyddwyd i gadw'r tempo yn sionc dan arweiniad medrus Mr Wil Morus Jones ac roedd yn amlwg o'r gymeradwyaeth fod y gynulleidfa wedi mwynhau y dataganiad hwn o'r Offeren.

YR WYL GERDD DANT

Alwena Roberts

Cynhaliwyd yr Ŵyl Gerdd Dant eleni ym Mhwllheli ac fel arfer aeth llu o gystadleuwyr o'r ardal hon yno.

Enillwyd y gystadleuaeth Parti Dawns Werin dan 15 oed gan blant Ysgol Heol y Celyn. Am y tro cyntaf ar lwyfan yr Ŵyl cafwyd clocsio cerdd dant. Dyna a wnaeth Triawd Nantgarw i ennill y gystadleuaeth stepio i grŵp. Roedd y tri wedi eu gwisgo'n barchus lawn mewn trowsus du, crys gwyn a thei bwa du, ac fel triawd cerdd dant profiadol, stepiwyd cyfalaw celfydd i gyfeiliant y delyn.

Ymysg y cystadleuwyr eraill a lwyddodd i gael llwyfan roedd Triawd y Garth, Dawnswyr Nantgarw a Pharti Gwerin Ysgol Rhydfelen dan 12 oed.

Ann Williams enillodd yr Unawd Cerdd Dant dros 21 oed ac i gloi'r noson enillwyd y gystadleuaeth i Gôrau Cerdd Dant gan Ferched y Garth o dan arweiniad Alwena Roberts.

Ann Williams Llun Arvid Parry Jones.

ORIAU AGOR

Mae oriau agor rhai o Lyfrgelloedd y Sir wedi newid ers dechrau'r mis.

LLANHARAN

Dydd Mawrth	2.00-5.00
Dydd Mercher	10.00-1.00
Dydd Iau	10.00-1.00
Dydd Gwener	10.00-1.00
a	4.00-7.00

FFYNNON TAF

Dydd Llun	10.00-1.00
a	3.00-7.00
Dydd Mawrth	9.30-1.00
a	2.00-5.00
Dydd Iau	10.00-1.00
a	2.00-6.00
Dydd Gwener	9.30-1.00
a	2.00-5.00
Dydd Sadwrn	10.00-1.00

Cofiwch fenthyg llyfrau Cymraeg.

Dyma'r math o lythyr danfonodd ein dosbarth i'r Cymro, S4C a'r Western Mail ond dim ond y **Western Mail** atebodd.

Ysgol Gynradd Creigiau
Heol Tynant
Creigiau
Caerdydd
CF4 8NN
Tachwedd 8

Annwyl ffrindiau,

Wythnos i ddydd Mercher byddwn yn ymweld ag Ysgol Gynradd Gymraeg Gilfach Bargoed. Byddwn yn gobeithio dal y trên yng Nghaerdydd tua 9.15 y bore.

Y pwynt yw i ail fyw'r cyfnod pan oedd yr ifaciwis yn bod, adeg yr ail rhyfel byd. Pan fyddwn yn mynd byddwn yn ddioichgar os byddwch yn dod i dynnu ein lluniau yn dweud hwyl fawr wrth ein mamau cyn mynd lawr i'r cymoedd pell.

Cofion Cynnes
oddiwrth
Awen.

IFACIWIS

Ar yr unfed ar bymtheg o Dachwedd aethon ni yng nghelr rhai o'r rhieni, sef Mrs Wood, Mrs Arwel, Mrs Pryce, Mrs Beard ac hefyd gar Mrs Morse i Gaerdydd er mwyn dal y trên i Gilfach Bargoed. Roedden wedi gwisgo fyny fel ifaciwis ac roedd gen i het feddal las, cot hir las, ffrog a sanau llwyd. Roedd label a'm henw arni ar fy nghot ac roeddwn yn carlo fy mwyd mewn bocs sgwar. Cefais flas ryfedd ar fy nhaith i Gilfach Bargoed. Bu'n rhaid i mam barcio car Mrs Morse wedi inni gyrraedd Caerdydd. Cafodd Mrs Beard hefyd tipyn o halibalw wrth barcio'r car.

Sarah Wood.

YR IFACIWIS

Llun o'r Western Mail

Ar ôl tynnu ein lluniau daeth y trên chic chic chocho. Stopiodd yn sydyn. "PAWB AR Y TREN" meddai Mrs Morse. Daeth y boboi allan o'r trên fel adar allan o gawell yng Nghaerdydd. Yn y trên wedyn roedd hi mor dawel â'r bedd. Roedd yna saith gorsaf ac wedyn dyma ni yng Ngilfach Bargoed.

Roedd yna ddyn camera yn ffilmio ni eto. Cerddon ni i'r ysgol. Roedd y plant yn gofyn cwestiynau ar y ffordd i mewn. Wedyn gofynnon ni gwestiynau i Mrs Davies a dyn oedd yn arfer mynd i'r ysgol hon. Ar ôl hynny aethom i ddosbarth Mr Davies. Roedd yna llawer o bethau rhyfel yna am y black-out a'r ifaciwis. Roeddwn wedi gwneud gwaith arnyn nhw. Wedyn aethom ni i ddosbarth Miss Davies. Roedd hi yn dangos lluniau o gas mask a chysgodfannau. Dysgon ni llawer ym Margoed ac fe ges i amser braf.

Donna John.

ADRODDIAD Y DAITH

Dydd Mercher Tachwedd 18 fe aethon ni i ymweld ag Ysgol Gymraeg Gilfach Bargoed. Cyrhaeddon ni yr ysgol am 08.30 ac fe es i yng nghar Ashley. Roedden wedi gwisgo fel ifaciwis ac roedd pawb yn edrych arnon ni. Roedden yn mynd i orsaf Caerdydd ond doedd dim lle i barcio o gwbwl. O'r diwedd dyma ni yn parcio mewn lle parcio cyhoeddus. Roeddwn yn nerfus achos doedd dim llawer o amser i redeg o'r lle parcio i'r orsaf drenau. Rhedon ni nerth ein traed trwy Gaerdydd. Roedd tyrfa o boboi yn edrych arnon ni. Roeddwn yn chwerthin ar Ashley ac wedyn roedd Ashley yn chwerthin arna i. Cyrhaeddon ni yna a rhedon ni lan y grisiau ac roedd y ffotograffydd yno yn tynnu ein lluniau.

Y CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Sylvia Davies

Ffair Grefftau

Diolch i bawb a ddaeth i Ffair Grefftau Cylch Meithrin a Chylch Mam a'i Phlentyn eleni. Bu'r diwrnod yn llwyddiant mawr gyda llawer mwy o bobl nac y llynedd yn galw i mewn i'r neuadd. Yr oedd sawl crefft newydd ar werth eleni gyda lluniau'r arlunydd Arnold Lowri yn amlwg yn boblogaidd iawn.

Twmpath Dawns

Cynhaliwyd twmpath yn Neuadd y Pentref, Pentyrch ar nos Sadwrn, Tachwedd 19eg. Trefnwyd y noson gan "Rhieni dros Addysg Gymraeg", cangen Creigiau a Phentyrch. Unwaith eto bu'r noswaith yn un hwylus iawn o dan arweiniad Cadlan.

Ysgol Y Creigiau

Cynhelir cyngherddau Nadolig y plant ar Rhagfyr 13eg, 14eg a'r 15fed. Fe fydd rhaglenni'r cyngherddau ar werth yn yr Ysgol o Rhagfyr 7fed gyda Chyngherddau y bore yn rhad i'r Henoed.

SIOP A MODURDY CREIGIAU
EICH LONDIS LLEOL
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I'N CWSMERIAID I GYD.

YSGOL GARTH OLWG

Cyngerdd Pinaci

Ar Ddydd Sadwrn, y pumed o Dachwedd aeth rhyw drigain o aelodau'r Urdd o'r Ysgol i gyngerdd Pinaci yr Urdd yng Nghanolfan Rhydycar, Merthyr Tudful. Cyfle oedd hwn i aelodau ifanc yr Urdd ymlacio a mwynhau doniau'r digrifwyr, Jelfin Jenkins, Syr Wynff a Plwmsan, Rosfa a Derec Brown.

Yn lle talu tâl mynediad gofynnwyd i bob aelod gyflwyno anrheg i blant dan anfantais. Trefnwyd y digwyddiad ar y cyd gyda'r Urdd a Mudiad MENCAP. Cafwyd prynhawn o fwynhad pur a'r plant wedi gwirioni o gael mynd i ymuno â'r sêr ar y llwyfan.

Dathlu'r Nadolig

Bydd Gwasanaeth Carolau'r Ysgol yn cael ei gynnal yng Nghapel Salem, Tonteg ar Nos Iau, Rhagfyr 15fed.

Bydd aelodau'r Urdd yn canu carolau yn y Ganolfan Siopa yn Nhonteg ar y 14eg o Ragfyr rhwng 4 a 5 o'r gloch. Cesglir at waith Dr Barnardo yng Nghymru.

Llongyfarchiadau

Mae Mrs Parfitt, Llyfrgellydd Pentre'r Eglwys yn trefnu cystadleuaeth yn flynyddol i blant ysgolion y dalgylch. Eleni roedd yn rhaid i'r plant gyfieithu clawr llyfr neu record. Llongyfarchiadau i Emma Williams am ennill y wobr gyntaf i blant 10 i 11 oed ac i Rachel Dowling am ennill y wobr gyntaf i blant 7 i 8 oed. Cyflwynwyd y gwobrau i'r ddwy yn y Llyfrgell ym Mhentre'r Eglwys, Dydd Iau, 24ain o Dachwedd.

TONTEG

Gohebydd Lleol: Siân Jones

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhiannon a Gareth Humphreys, Swn y Nant, Pentre'r Eglwys Uchaf ar enedigaeth merch fach, Manon Esyllt ddydd Mercher, Tachwedd 16eg.

Cyfle Meithrin Tonteg

Cynhelir cyngerdd Nadolig yr ysgol feithrin fore dydd Gwener, Rhagfyr 16eg yng nghapel Salem ac eleni rhoddir gwahoddiad arbennig i bensiynwyr yr ardal ac aelodau'r capel. Ar ôl y gyngerdd rwy'n siwr y bydd y plant wrth eu bodd pan ddaw Siôn Corn heibio a'i sach yn llawn o anrhegion.

Cynhelir parti Nadolig yr ysgol feithrin fore Mercher, Rhagfyr 21ain.

Cyfle Mam a'i Phlentyn

Cynhelir parti Nadolig i'r plant ieuengaf brynhawn Mercher, Rhagfyr 21ain ac rwy'n siwr mai uchafbwynt y parti fydd ymweliad Siôn Corn.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Robin Jones, Pen yr Eglwys, Pentre'r Eglwys Uchaf ar ennill gradd M.Sc. mewn Gwyddoniaeth Gyfrifiadurol.

Merched y Wawr

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, Rhagfyr 7fed yn festri Salem, Tonteg. Bu'n rhaid gohirio cyfarfod mis Tachwedd ac felly dyma gyfle arall i iunio blodau i addurno cacen dan gyfarwyddyd Elaine, Liz a Mainir.

Bwriada aelodau'r mudiad fynd o amgylch Tonteg a Phentre'r Eglwys i ganu carolau er mwyn codi arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, Taf Elai. Nid oedd Meima'n siŵr o'r dyddiad pan siaradais â hi ond fe'm sicrhaodd y byddent yn canu cyn Rhagfyr 25ain!!!

Salem

Daeth y gwaith o ymweld â 500 o gartrefi yng nghyffiniau'r capel, fel rhan o'r ymgyrch DWEUD WRTH GYMRU bron i ben. Ar y cyfan fe gafwyd croeso cwrtais yn y mwyafrif o'r tai. Mae nifer bychan wedi ymateb trwy gysylltu â swyddfa trefnwyr yr ymgyrch yng Nghasnewydd i ofyn am wybodaeth bellach.

C.I.C.

Ymunodd rhai o blant yr Ysgol Sul â phlant nifer o ysgolion Sul eraill yr ardal mewn diwrnod o weithgarwch a drefnwyd ar eu cyfer yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 19eg.Cafwyd hwyl yn cystadlu yn y gwahanol chwaraeon - nofio, pêl rwyd, pêl droed - ac yn y cwis beiblaidd. Tipyn o gamp oedd cofio hanes Joseff i gyd. Ac ar ddiwedd y dydd tîm Salem oedd yn fuddugol, diolch i ymdrechion Dwynwen Jones, Nia a Rhiannon Jones, Rhianon Jones, Lisa Mair Williams, Matthew Lloyd, Tomos Morse, Aled a Geraint Pickard, Daniel Swain a Simon Williams.

Yn ystod y mis edrychwn ymlaen at groesawu amryw o fudiadau sydd yn bwriadu cynnal eu gwasanaethau carolau yn y capel. O ran trefniadau Salem, bydd Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul Gymraeg am 10.30 ar 18 Rhagfyr a bydd Gwasanaeth Cymun dwy-ieithog am 10 o'r gloch ar fore dydd Nadolig. Beth am ddod atom i ddathlu'r Ŵyl?

SWYDDFA'R POST CREIGIAU

PERCHNOGION

BRIAN A RACHEL HUNT

LLYFRAU, PAPURAU NEWYDD, TEGANAU

LOSIN, DIODYDD, BWYD

CARDIAU CYMRAEG

CERDYN NADOLIG DWYIEITHOG

GYDA GOLYGFA YNG NGHREIGIAU

Cyfarchion y Tymor

i holl ddarllenwyr 'Tafod Elai'

Cefnogwch eich Swyddfa Bost leol

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Beti Treharne

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lowri Williams, Despenser Avenue, Llantrisant. Fe fu Lowri'n llwyddiannus yn y maes gymnasteg pan enillodd y fedal arian yn y tîm dan 9 oed yn y "Welsh Novices Championship". Ond yn ystod mis Tachwedd fe aeth Lowri un cam ymhellach - fe enillodd ddwy fedal aur - un am y gwaith unigol o dan 9 oed, a'r llall am fod yn aelod o'r tîm dan 9 oed. Yn amlwg, mae dyfodol disglair o'i blaen.

Ysgol Gymraeg Llantrisant

Arwerthiant- Llyfrau o siop Oriel Dioich i'r rhieni a ddaeth i gefnogi'r ysgol ar nos Iau, Tachwedd 10fed. Gwerthwyd gwerth 400 o lyfrau.

Llongyfarchiadau i Gareth Norcup am fynd ymhellach yn y gystadleuaeth nofio. Fe fydd Gareth yn nofio ar ei gefn yng Nglyn Ebwy, yn y rhan nesaf o gystadleuaeth yr Urdd.

Dyddiau i'w cofio ym mis Rhagfyr:

Rhagfyr 13eg - Gwasanaeth carolau yr Ysgol yn Eglwys Llantrisant am 1.45.

Rhagfyr 18fed - Cyngerdd Nadolig yr Urdd yn y Canolfan Hamdden.

Wrth gwrs fe gynhelir partion Nadolig yn yr Ysgol hefyd, ac fe fydd y "Tell Tale Theatre" yn ymweld â'r Ysgol i ddiddori'r plant yn yr Adran Iau.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Llywodraethwyr newydd ar Dachwedd 14eg. Alan James fydd y Cadeirydd a Gwilym Moses yr Is Gadeirydd.

Pwyllgor Apêl Llantrisant

Cafwyd cyfarfod ar nos Fercher, Tachwedd 9fed lle trefnwyd noson ar y cyd gyda Phwyllgor Apêl Pontyclun - noson o farddoniaeth ac ambell i beint, ar nos Wener, Tachwedd 18fed.

Bu aelodau'r Pwyllgor hefyd yn brysur lawn yn gwerthu'r tocynnau raffl y tu allan i farchnad Pontyclun, ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 12fed. mae 'na groeso i unrhyw un, sydd yn gallu cynnig mwy o syniadau i godi arian, i ymuno â'r pwyllgor ar nos Fercher, Rhagfyr 7fed yn nhafarn y Cross Keys, Llantrisant am 8 o'r gloch.

Ysgol Feithrin Llantrisant

Tachwedd 5ed - Noson Guto Ffowc Ar noson braf, fe gafwyd noson ardderchog - fe ddywedwyd "y gorau eto!" Roedd yno bob math o dân gwyllt, a phawb yn mwynhau'r bwyd blasus; yn enwedig y cŵn poeth, a'r rheini'n cael eu gwerthu am hanner pris ar ddiwedd y noson. Dyna beth oedd bargen!

Yn ystod mis Rhagfyr fe fydd y plant yn cael cyngerdd a pharti arbennig.

YMRYSON YN Y CYMDEITHAS GYMRAEG

Daeth criw hwyliog i'r Cross Keys i wrando ar Menna Thomas, Meirna Morse, Gwyn Griffiths a Geraint Pennant yn barddoni yn erbyn yr ymwelwyr o Glwb y Dwrlyn sef Ifan Wyn Williams, Rhodri Gwyn, Colin a Nia Williams, Rhys Dafis ac Emlyn Davies. Aeth elw'r noson at Gronfa Apêl Llantrisant.

Y GROESFAEN

Gohebydd Lleol: Wyn Thomas

Eisteddfod yr Urdd, Taf Elai

Sefydlwyd pwyllgor yn y pentref yn ystod yr Haf. Aelodau'r pwyllgor yw:-

Cadeirydd - Geraint Davies
Ysgrifenyddes - Elionwy Jones
Trysorydd - Harry Drake
Aelodau - Gail Mills, Mrs Hopkyn, Norma Moses, Wyn Thomas.

Gosodwyd nod o 2,000 i'r pentref gasglu ar gyfer yr Eisteddfod ym 1991. Eisoes cynhaliwyd parti llwyddiannus yng nghartref Geraint a Sara Davies, pan gasglwyd dros £300. Cafwyd boreau coffi achlysurol yng Nghapel Babell, gan werthu cacennau a dillad plant Eisteddfod Taf Elai 1991. Hyd yn hyn, llwyddwyd i gasglu dros 60 yn y boreau coffi. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn am gydweithrediad swyddogion y capel, wrth drefnu'r achlysuron yma.

Fel pob pentref arall, derbyniodd pwyllgor Groesfaen docynnau raffl i'w gwerthu yn ystod Hydref a Thachwedd. Llwyddwyd i werthu gwerth 292 o docynnau.

Cyn y Nadolig, bydd nifer o bentrefwyr a'u ffrindiau yn mynd i siopa yn Llundain. Trefnwyd y bws gan Norma Moses. Yna'n agos i'r Nadolig bydd canu carolau yn y pentref, cyn i'r cantorion gyfarfod yng Nghapel Babell am baned a chacen.

ANGEN HELP YN NHONYREFAIL

Mi wyddoch fod Eisteddfod yr Urdd yn mynd i Donyrefail. Mae yno Ysgol Gynradd Gymraeg ers blynyddoedd gyda rhyw 200 o blant ar y llyfrau a digon o rieni brwdfrydig ond di-Gymraeg.

Mae Pwyllgor Cylch Llantrisant (sef ochr orllewinol Taf-Elái) ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar sefydlu adrannau hŷn (plant oedran uwchradd) ac yn gobeithio ennill grant i ychwanegu dwy adran hŷn (yn Nhon-teg a'r Creigiau) at yr adran hŷn sydd eisoes yn cwrdd yn Llantrisant dan arweiniyddiaeth Eurof James. Cytunodd Gwynaf Davies i arwain Adran Ton-teg, a Siiyn Roberts i arwain Adran y Creigiau.

Byddai'r Pwyllgor yn hoffi gweld adran Iau yn cael ei sefydlu yn Nhonyrefail yn fuan, yn y gobaith y byddai hyn yn arwain at alw am adran hŷn yn y dyfodol. Ni ellir cael grant i redeg adran Iau. Does dim llawer o rieni Tonyrefail yn siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, nid yw'n debygol y byddai yr un o athrawon yr Ysgol Gymraeg yn gallu gweld ei ffordd yn glir i arwain Adran y tu allan i oriau'r ysgol ar hyd y flwyddyn. Beth yw'r ateb? Os gall unrhyw un o ddarllenwyr y Tafod gynnig help, ffoniwch 228196.

PERSON DI-WAITH YN ENNILL CAR YR URDD

Enillwyd raffl gyntaf Eisteddfod yr Urdd, Taf-Elái gan R. Bosanqo o Gaerffili sydd ar hyn o bryd yn ddi-waith. Daw Mr Bosanqo yn wreiddiol o Nantgarw a phrynodd y tocyn gan berson o Waelod-y-garth. Rhif y tocyn lwcus oedd 22603. Pa mor agos ati oeddech chi?

Cyflwynwyd y car - Vauxhall Nova 1000 - i Mr Bosanqo ym Modurdy South-gate, Llantrisant gan Mr Merfyn Griffiths, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith.

Yn ôl Mr Colin Jones, a fu wrthi'n ddiwyd am wythnosau yn trefnu'r raffl, gwnaed elw o £1,472.

Diolch i bawb a fu'n gwerthu tocynnau, ac, wrth gwrs, i bawb a brynodd. Gwell hwyl tro nesaf!

Gyda llaw, 2 + 2 + 6 + 0 + 3 = 13. Lwcus i rai.

Aelodau'r Pwyllgor Cyllid yn gwerthu'r tocynnau raffl ym Marchnad Tonysguboriau. ⟶

Daeth newyddion calonnogol oddiwrth Gynghorwyr Sir Morgannwg Ganol mewn cyfarfod a drefnwyd i egluro cynlluniau'r Pwyllgor Gwaith i gynnal Eisteddfod 1991 yn Nhaf Elái. Mae'r cyngor yn bwriadu rhoi nawdd sylweddol i'r Wŷl a pob cymorth gyda'r safle a'r ysgol yn Nhonyrefail.

Ar Nos Iau, Rhagfyr 1af cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn Nhonyrefail o dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Sirol Doug Macdonald i sefydlu Pwyllgor Apêl Lleol. Etholwyd D.J. Davies yn Gadeirydd y Pwyllgor a dewiswyd nifer o bobl lleol i'w gynorthwyo.

CYNGOR TREF PONTYPRIDD

CANOLFAN HANESYDDOL A DIWYLLIANNOL PONTYPRIDD

AR AGOR
Dydd Mawrth - Dydd Sadwrn
(a Gwyliau Banc)
MYNEDIAD
Oedolion 20c - Plant 10c

Am fanylion pellach cysylltwch â
Y Swyddog Gwasanaethau Diwylliannol
Canolfan Hanesyddol Pontypridd
Heol y Bont
PONTYPRIDD
Morgannwg Ganol
Ffôn (0443) 402077

GWASANAETH TEIPIO



Cymraeg a Saesneg

Cysylltwch â HELEN CALVERT

Llantrisant 222908

TRYDEDD GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI 1988

Ysgol Cwm Rhymni - Enillwyr Tlws yr Ysgolion a Chwpan pencampwyr yr Ŵyl.

'Ar Dy Feic' gan Ysgol Gyfun Llanhari

Cynhyrchiad 'Nafaho' Ysgol Gyfun Rhydfelen

Cafwyd gair o anogaeth i bob cwmni ym meirniadaeth gytbwys John Hefin, cloriannydd yr Ŵyl. Pwysleisiodd iddo fwynhau pob perfformiad gan ddiolch i'r cwmnïau i gyd am eu paratoi dyfal ac am y graen oedd ar eu gwaith.

Cafwyd naws Orwellaidd, meddai, ym mherfformiad Ysgol Gyfun Llanhari, 'Ar Dy Feic', cynhyrchiad cyntaf yr Ŵyl ar y nos Fercher. Talodd deyrnged i'r ddau oedd yn cyflwyno'r perfformiad am wneud hynny mewn ffordd 'gryf ac awdurdodol'. Da oedd gweld dau fachgen yn cymryd rhan. Roedd rhannau o'r perfformiad yn lasol. Soniodd yn arbennig am olygfa'r cyfweliad a lwyddodd i gyfleu amrediad o emosiynau'r ifanc di-waith. Roedd hwn yn 'gynhyrchiad grymus' ac yn 'agoriad addawol iawn' i'r Ŵyl.

Yr ail gwmni i ymddangos ar y nos Fercher oedd Ysgol Gyfun Rhydfelen gyda 'Nafaho'. Dyma ysgol a thraddodiad o berfformio'n llwyddiannus. Roedd safon actio cynhenid y disgyblion yn anhygoel. Dameg fechan a gafwyd ganddynt (er gwaethaf geiriad y rhaglen) yn cymhwyso sefyllfa gyfoes y Gymru Gymraeg i sefyllfa llwyth y Nafaho ganrif yn ôl. Cafwyd rhai pethau arbennig iawn yn y perfformiad hwn eto. Crybwyllwyd yr olygfa pan ddaeth yr Indiaid a'r plant gwyn wyneb yn wyneb am y tro cyntaf. Y cwrdd, y diffyg deall, a'r deall ar waethaf hynny. Cafwyd cynildeb effeithiol iawn yn yr olygfa hon, golygfa a oedd yn ;ntro cryn dipyn, gyda'r ddwy ochr yn siarad Cymraeg â'i gilydd ac eto'n llwyddo i gyfleu'r syniad mai mewn ieithoedd eraill, dieithr i'w gilydd, yr oeddent yn siarad.

Y cwmni olaf i berfformio ar y nos Fercher oedd Cwmni'r Dwrlyn gyda 'Pry Ffenast' a gyflwynwyd fel teyrnged i'r diweddar John Gwilym Jones. Roedd hwn yn gynhyrchiad deallus wedi'i chwarae'n ddeallus. Roedd steil yngiyn â'r perfformiad a chryn feddwl y tu ôl iddo ac roedd yn sicr yn llwyddo fel teyrnged i'r diweddar ddramodydd.

BEIRNIADAETH JOHN HEFIN

Clwb y Bont - Enillwyr Tlws yr Oedolion

Cwmni Glan-taf oedd y cyntaf i berfformio ar y nos lau gydag 'Os ffrindiau, ffrindiau'. Er bod y dechrau ychydig yn araf, roedd llawer iawn i'w ganmol yn y cynhyrchiad hwn hefyd. Cafwyd clip ar y ffordd y mae merched ifanc yn siarad - rhywbeth pur newydd ar lwyfan. Llwyddwyd i gyfleu'r gwahaniaeth rhwng gwahanol gyfnodau gyda gwahanol gerddoriaeth, ieithwedd ac yn y blaen. Cafwyd diwedd cryf ac effeithiol iawn.

Dilynwyd Cwmni Glan-taf gan Gwmni Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cyflwyno 'Darganfod'. Sonlodd John Hefin am y newid mŵd yn y gynulleidfa rhyw bum munud i mewn i'r cynhyrchiad hwn. Rhan o lwyddiant y cynhyrchiad oedd bod nifer o elfennau wedi dod ynghyd, tair actores ddawnus, sgript dda, a chydymdeimlad o du'r gynulleidfa. Cafwyd rhai munudau cofiadwy yn y cynhyrchiad hwn. 'Tase wyneb fel d'un di 'da fi, 'swn i 'di dysgu 'mhen ôl i siarad ers blynydde!' Roedd popeth ynglŷn â'r cynhyrchiad fel petai'n gweithio, ac yn cyfrannu at yr hiwmor.

Tasg go anodd oedd dilyn llwyddiant Cwm Rhymni, fel y bu'n rhaid i Glwb y Bont ei wneud. Dyma actio o natur hollol wahanol - actio bras yn hytrach na'r cynildeb awgrymog a gafwyd gan yr actorion ifanc. 'Anhygoel' oedd ansoddair y beirniad - mewn mwy nag un ystyr, mae'n debyg. O'r llinell 'Sec! Sec! Sac!' ymlaen roedd llwyddiant y perfformiad yn ddigwestiwn. Ymhlith nifer o elfennau a gafodd glod y beirniad yr oedd perfformiad Sec ei hun fel ci, yr ymgeiswyr am swydd y clerc, y wig! - heb sôn am gyfyng gyngor Edward Cadwaladr druan wrth gael ei lusgo oddi ar y llwyfan mewn dau gyfeiriad gwahanol! Cafwyd llond bol a llond neuadd o chwerthin iach o'r dechrau l'r diwedd. Roedd ymateb y gynulleidfa yn dangos gwerth y cynhyrchiad.

'Sa'wn 'Sa!' oedd drama Cwmni'r Fuwch Goch eleni. Dyma set a gwisgoedd mwyaf uchelgeisiol yr ŵyl. 'Cliciodd' y cynhyrchiad hwn hefyd o'r dechrau, a'r gynulleidfa'n mwynhau pob munud. Brawychus oedd deall bod y sheriff yn dysgu merch John Hefin. Sôn am danseilio ffydd rhywun mewn athrawon. Ond anodd oedd meddwl am y rhain fel athrawon, rywsut. Fel y dywedodd y beirniad, gallai rhywun ddychmygu'r hwyl yr oedd y cwmni wedi'i gael wrth baratoi'r cynhyrchiad. Roedd yr hwyl hwnnw'n cael ei drosglwyddo i'r gynulleidfa.

Un ddrama oedd yn aros, sef cyflwyniad Cwmni Un-nos o 'Un Briodas', all deyrnged yr ŵyl i'r diweddar ddramodydd o'r Groeslon. Roedd meddwl gofalus y tu ôl i'r cynhyrchiad, set syml yn cael ei defnyddio'n ddeheulg, a laith arbennig John Gwilym wedi'i hynganu'n gryf gan John a Carol Hardy. Cynhyrchiad chwaethus ac urddasol iawn oedd hwn.

Wedi cymaint o fwynhad, sut oedd penderfynu ar y gorau? Defnyddiodd John Hefin linyn mesur syml iawn. Un o'r synau harddaf - a sŵn sy'n gyffredin i bob laith - yw sŵn chwerthin. Ac am ysgogi'r sŵn hwnnw gyda pherfformiadau ysgubol, Clwb y Bont aeth â thlws y cwmnïau oedolion, ac i Gwm Rhymni y dyfarnwyd tlws y cwmnïau ysgolion. Ac am mai yn eu dwylo nhw y mae'r dyfodol, i Gwm Rhymni yr aeth y gwpan a phencampwriaeth GŴyl Ddrama Tafod Elái 1988.

Diolch i John Hefin yntau am gyfrannu mor raenus ac mor gydwybodol i lwyddiant diamheol yr ŵyl.

Gwyl Ddrama Tafod Elai

'Salwn Sal' Cwmni'r Fuwch Goch

Roy Davies - Ymgynghorydd Technegol

'Un Briodas' Cwmni Un Nos

'Os Ffrindiau, Ffrindiau' Ysgol Gyfun Glantaf

'Pry Ffenast' Cwmni'r Dwrlyn

R. MILES RICHARDS LL.B.
CYFREITHIWR
Main Road, Pentre'r Eglwys,
Pontypridd.Morgannwg Ganol.
CF38 1RN
Ffôn: 0443 202237 a 208116

YR EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

Llongyfarchiadau

Mae Mr a Mrs R. Williams, 46 Heol Dowlais yn llawenhau ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf anedig. Ganwyd Sebastien, sef mab bychan Stephen a Madalaine Williams ganol mis Hydref. Mae'r teulu wedi ymgartrefu yn Guildford erbyn hyn er iddynt ddechrau eu bywyd priodasol yn Kuwait lle roedd Stephen yn Beirianydd Sifil. Mae llawer yn coflo am Stephen fel gitarydd bâs y grŵp Shwn a fu'n boblogaidd yn y saith degau.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Sonia Luscombe, Ffordd y Capel yn y brofedigaeth o golli ei thad yn ddiweddar. Roedd Mr Michael Sokolowski yn hannu o Wlad Pwyl ond roedd wedi byw yn Nhrefforest ers blynyddoedd. Cydymdeimlwn â'i weddw, Barbara a'r merched Sonia a Teresa.

Y Tabernacl Bedyddio

Yng Ngwasanaeth y Cymun ddechrau mis Tachwedd ymunodd amryw o ffrindiau â'r gynulleidfa yn y Tabernacl ar yr achlysur hapus o fedyddio Mellyr Gwynfryn, mab Andrew ac Ann Dixey a Gethin Daniel, mab Gareth a Sylvia Davies.

Gwasanaethau'r Nadolig

A ninnau ar drothwy'r Nadolig estynnwn groeso cynnes i aelodau a ffrindiau'r Tabernacl i ymuno yn nathliadau'r Nadolig. Ar Ddydd Sul, Rhagfyr 18fed fe fydd Gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul am hanner awr wedi deg y bore, a Gwasanaeth y Plygain am bump o'r gloch yr hwyr. Fe fydd cyfle i gael paned o de yn y Festri ar ôl yr Oedfa.

Cynhelir Gwasanaeth Noswyl y Nadolig am 11 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i chi gan y Gweinidog, Y Parchedig Eirian Rees, i ddod â'ch cymdogion, eich ffrindiau ac aelodau'r teulu i ymuno mewn Gwasanaeth dwy-ieithog i groesawu'r Nadolig.

Mae'n siwr y bydd yn bosibl perswadio Siôn Corn i ddod ar ei ymweliad blynyddol â pharti plant yr Ysgol Sul ar nos lau, Rhagfyr 22ain.

Hyderwn y cawn y gefnogaeth hael arferol i garolwyr yr Eglwys a fydd yn crwydro o gwmpas y pentre' i godi arian i roi ychydig o lawenydd adeg y Nadolig i gleifion Ysbyty Tonteg.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Ann Dwynwen Davies

MERCHED Y WAWR

Bu cyfarfod mis Tachwedd o Gangen y Garth yn un diddorol a buddiol dros ben, yng nghwmni Mrs Elizabeth West. Aeth i gryn drafferth i baratoi a chloginio pedair saig dan amgylchiadau digon anodd a chyfyng, a thrwy hynny arddangos hwylustod ac effeithlonrwydd ffwrn meicro-don, a thynnu dŵr o'n dannedd ni i gyd.

YSGOL FEITHRIN

Mae plant yr ysgol feithrin yn brysur yn paratoi ar gyfer eu cyngerdd Nadolig, pan fyddant yn difyrru eu rhieni, ac unrhyw un arall fydd yn troi i mewn, drwy ganu carolau mewn gwisgoedd tymhorol, wythnos cyn y Nadolig. Wedi'r cyngerdd, bydd parti Nadolig ac ymweliad gan Siôn Corn.

PWYLLGOR EISTEDDFOD YR URDD

Cynhaliwyd parti Fiesta llwyddiannus yn Tŷ Ni, cartref Yvonne a Gareth Williams, i godi arian at yr achos. Bu bri mawr ar y prynu, a phawb yn falch o'r cyfle i gael paned a chacen a sgwrs.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch hefyd i bawb fu wrthi mor ddeheuig yn gwerthu cyfran Pentyrch o docynnau raffl yr Eisteddfod.

COLLI CYMERIAD

Gyda thristwch daeth y newyddion am farwolaeth Morfydd Thomas, Berthlwyd, un o gymeriadau Pentyrch.

Magwyd Morfydd ar aelwyd Gymraeg yn y pentref a bu'n gadarn ei chefnogaeth i'r iaith drwy gyfnod o Seisnigo. Doedd neb yn fwy balch na hi i weld yr iaith Gymraeg yn adfywio yn yr ardal.

Roedd Morfydd yn ymgorfforiad o bethau gorau'r pentre, ac yn meddwl y byd o'r lle. Rydym, drwy ei cholli, yn colli un o'r cysyllitiadau prin sydd gennym â Chymreictod cynhenid yr ardal.

Mae aelodau Teulu Twm yn cynnig gwasanaeth dosbarthu llythyron i aelodau'r capel am dâl rhesymol iawn. Dosberthir y cardiau i unrhyw aelod yn nalgylch y capel. Bydd y Bocs Postio yng nghyntedd y capel pob Sul o nawr tan y Nadolig.

CYNGERDD

Bu cyngerdd llwyddiannus arall yng ngofal Cantorion Creiglau yn Neuadd y Pentref, nos Wener Tachwedd 4ydd, a phawb yn canmol y mwynhad pur a gaed yno. Nid dyma'r tro cyntaf i'r côr gynnal cyngerdd yma ar gais pwyllgor y Neuadd.

TWMPATH

Mae twmpathau mor boblogaidd ag erioed yma, yn ôl y sôn ar ôl y twmpath a drefnwyd gan RHAG nos Wener Tachwedd 19eg, gyda Cadlan.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Margaret Francis

Ysgol Gymraeg Evan James

Gwerthwyd dros 900 o lyfrau yn yr ysgol gan slop 'Oriel' ar nos Fercher, Tachwedd 2ail. R'oedd hyn yn ardderchog gan ystyried faint o blant sy'n mynychu'r ysgol.

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd Ffair yr ysgol ar ddydd Sadwrn, 3ydd o Ragfyr am 10.30 yn y bore. Dyma oedd atyniadau'r ffair: Stondinau - Pice ar y maen; Crefft; Eliffant Gwyn; Teganau a Llyfrau; Gwisg Ysgol; Gemwaith; Gemau; Peintio Wynebau; Telsennau; Planhigion; Liuniaeth; ac hefyd roedd cyfle i'r plant siarad â Sion Corn ei hun yn y Grotto.

Eisteddfod yr Urdd Taf Elai Cangen Graigwen

Oherwydd diffyg cefnogaeth i ddau gyfarfod cyhoeddus yng Nghlwb y Bont, un ym mis Hydref a'r llall ym mis Tachwedd, erfyniwn yn daer arnoch chi breswylwyr Graigwen i fynychu cyfarfod arall yn y Clwb ar Ragfyr 7fed am 8 o'r gloch. Y bwriad ydy sefydlu pwyllgor apêl a byddwn yn falch iawn pe bai pob un o Graigwen yn bresennol. Targed Graigwen fydd 3,500 ac rydyn ni'n siwr gyda'ch cydweithrediad y gallwn gyrraedd y nôd ymhell cyn 1991.

Cofiwch - Rhagfyr 7fed!!!

Ysgol Gyfun Rhydfelen

Llongyfarchiadau calonog i'r Parti Gwerin dan 12 a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth yn yr Ŵyl Gerdd dant ym Mhwllheli ar Dachwedd 18fed.

CRWYDRO PONTYPRIDD

Tro o amgylch Pontypridd.

'Rwyf wedi sôn eisoes am yr Amgueddfa Hanesyddol a'r Hen Bont ym Mhontypridd ac felly cymeraf yr Hen Bont fel man cychwyn. Gadewch i ni ddychmygu ei bod yn noswaith o Haf ac awydd arnom fynd am dro i rywle nid yn rhy bell o ran pellter, ond yn bell yn ôl yn y gorffennol. Dewch gyda mi ynte am dro o amgylch Pontypridd.

Ar ôl croesi'r bont awn heibio hen dafarndy "Y Maltsters Arms" sydd yn gyfarwydd i rai ohonoch 'rwy'n siwr ac wedyn dilyn yr heol at Barc Ynysangharad. Yn wreiddiol roedd y parc yn perthyn i fferm o'r enw Ynysangharad (Ynys y Gored) ac yn ddiweddarach i Dŷ Ynysangharad. Ar un adeg perchogion y fferm oedd teulu Crawshay ond aeth wedi hynny i ddwylo Syr Benjamin Hall, (Arglwydd Llanofer). Dyma yn ddiau roddodd fod i enw'r dafarn "Llanover Arms", hen hostrel, sydd yn agos iawn at y parc. Yn ddiweddarach eto bu Mr George Lenox, cadeirydd y gwaith 'Brown a Lenox', yn byw yn y tŷ. Sefydlwyd y gwaith cadwynau yn y flwyddyn 1818 dan yr enw "The Newbridge Chain, Cable and Anchor Works". Newbridge oedd yr hen enw ar Bontypridd. Yma gwnaethpwyd cadwynau ar gyfer llongau mawr sef, llongau y dyn enwog Brunel, fel y Lusitania, Mauritania, Queen Mary ac atl.

Ymlaen yn awr at Barc Ynysangharad ei hunan a sefydlwyd fel cofgolofn i'r dynion a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yma hefyd mae cofgolofnau sy'n cynrychioli "Barddoniaeth a Cherddoriaeth" a gynlluniwyd gan y pensaer Mr Goscombe John er cof am Evan James a James James a gyfansoddodd ein Hanthem Genedlaethol.

Wrth ddod allan o'r parc gwelwn 'Y Llanover Arms' ar ochr arall yr heol. Fel y dywedais o'r blaen hen hostrel oedd hon ac un o'r tafarnau hynaf ym Mhontypridd. Trown yn awr i'r dde a cherdded heibio'r man lle roedd 'Hen Gamlas Sir Forgannwg' yn arfer bod, ac yna i fyny'r 'Cornstores Hill' at Gomin Pontypridd. Ar y comin down ar draws 'Y Maen Clwyf' a roddodd ei enw i'r ardal a elwir heddiw yn Goedpenmaen. Wrth gerdded ar hyd y Comin fe gyrhaeddwn yr hen 'Cottage Hospital', nawr 'The Pontypridd and District Hospital' a agorwyd yn y flwyddyn 1911.

Cerddwn yn bellach, disgyn ychydig nawr a chyrraedd 'Y Tai Crwn' enwog. Adeiladwyd y tai hyn gan Dr William Price y mae ei hanes yn adnabyddus i ni bron i gyd. Dyma ryw ychydig amdano ynte er mwyn y rhai ohonoch sydd heb fod yn gyfarwydd â hanes y dyn rhyfedd hwn. Roedd Dr William Price yn un o gymeriadau mwyaf enwog Pontypridd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwisgai wisg hir, lliwgar, het o flew cadno a thyfai ei wallt i lawr at ei ysgwyddau. Roedd yn ymddiddori yn hanes y Derwyddon ac yn cael ei gyfrif fel un ohonynt, yn wir fel yr Archdderwydd gan rai o bobl yr ardal. Roedd hefyd yn feddyg, yn feddyg galluog iawn ond roedd yn well ganddo ddefnyddio llysiau i wella pobl yn hytrach na moddion confensiynol. Enillodd enwogrwydd fel arweinydd 'Y Mudiad Siartaidd' yn Ne Cymru; ond mae'n fwy enwog am weithred a brofwyd i fod yn chwyldroadol i gymdeithas y dyfodol. Roedd mab ganddo a enwodd yn Iesu Grist a phan fu ef farw yn bum mis oed llosgodd William Price ei gorff ar y comin yn Llantrisant yng ngŵydd cannoedd o bobl. Fe'i cyhuddwyd am y weithred od a dygwyd ef o flaen y llys yng Nghaerdydd ond fe'i cafwyd yn ddieuog gan yr Ustus Stephens a benderfynodd fod corfflosgiad yn gyfreithlon. Sefydlwyd yr adeilad corfflosgi cyntaf yng Nghymru yng Nglyntaf yn y flwyddyn 1924 yn agos at Dai Crwn Dr. William Price, ac mae yn atgof swyddogol o'i weithred syfrdanol.

Cerddwn ymhellach ar hyd y ffordd nes cyrhaeddwn Eglwys St. Mair, Glyntaff, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1839, eglwys y plwyf gyntaf yn ardal Pontypridd. Awn yn awr i lawr y rhiw heibio'r eglwys a throi i'r dde gan fynd

ar hyd Heol Pentrebach. Croeswn yr heol wrth hen dŷ tafarn o'r enw 'Farmers Arms', dros y bont wedyn at lwybr (towpath), un arall o olion Hen Gamlas Sir Forgannwg sydd yn dal i fod yno. Awn ymlaen ar hyd y llwybr (towpath) nes cyrraedd 'Lock Cottage'. Yr oedd yma lifddor bwysig iawn ar y gamlas. Trown i'r dde heibio a chroesi pont fach yn ymyl y dafarndy 'The Bunch of Grapes'. Mae hon yn nodweddiadol o'r dafarn oedd wrth ochr y camlesi yn y ganrif ddiwethaf. Ymlaen yn awr i mewn i Heol Ynysangharad ac yna 'nôl i'r dref heibio'r Hen Bont.

'Rwy'n ddyledus i Miss Lettice Thomas, Cymdeithas Hanesyddol Pontypridd am y ffeithiau hanesyddol.

Peggy Jones.

CYSTADLEUAETH GWYL DDEWI 1989

Dan 6 oed

1) Tynnu llun ac ysgrifennu brawddeg am y "Bachgen Drwg".

neu

2) Tynnu llun ac ysgrifennu am 'Alffi a Lili Mei'.

6-8 oed

1) Ysgrifennu am 'Pobl drws nesaf' neu 'Cymdogion'.

neu

2) Llunio Cerdyn gwahoddiad i barti penblwydd.

8-10 oed

1) Barddoniaeth
"Mae'n gas gen i..... "

neu

2) Llunio Gwisg Ysgol newydd i fechgyn a merched.

10-12 oed

1) Ysgrifennu llythyr i'ch cariad.

neu

2) Tynnu llun yr adelaid neu'r olygfa orau a welsoch erioed.

Dosbarth 1 a 2 Ysgolion Uwchradd

1) Ysgrifennu pennod i 'Pobol y Cwm'

neu

2) Llunio bathodyn i roi ar Grys T ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Taf-Elái 1991.

RHEOLAU

1. Rhaid i bob cystadleuydd fod yr oedran iawn.
2. Rhaid i bob cystadleuydd roi
   a) ei enw
   b) ei gyfeiriad
   c) ei oed.
3. Ni ddylai'r lluniau fod yn fwy na phapur A4.
4. Rhaid i bob cyfansoddiad gyrraedd
   Tafod Elái
   Nawdd-dir
   Heol Coedpenmaen
   Trallwng
   PONTYPRIDD
   erbyn Dydd Sadwrn 11fed Chwefror 1989
5. Ni dderbynnir unrhyw gynnyrch os na lynnir wrth y rheolau uchod.

YNYS-Y-BWL

Gohebydd Lleol: Nansi Valentine.

Cwrdd Diolchgarwch Noddfa gyda'r Gweinidog a'i wraig.

Y Diolchgarwch

Dathlwyd y Diolchgarwch eleni eto yn yr amrywiol eglwysi.

Y Tabernacl

Ar nos Lun, Hydref 3ydd cynhaliwyd gwasanaeth arbennig gyda phlant yr Eglwys yn cymeryd y rhan arweiniol. Thema'r noson oedd Gweddi'r Arglwydd. Trefnwyd y gwasanaeth gan Mrs Edith Sheppard ar ran y Chwaeroliaeth a pharatowyd lluniaeth i bawb ar ôl yr oedfa.

Ar nos Fawrth, Hydref 4ydd cynhaliwyd Cwrdd Gweddi arbennig ar gyfer y Diolchgarwch.

Ar y nos lau daeth y plant a'r oedolion ynghyd mewn dwy oedfa wahanol. Am chwech o'r gloch tro y plant oedd hi, gyda phlant yr Ysgol Sul a phlant Clwb y Newyddion Da yn rhoi eu diolch. Cymerwyd y rhan arweiniol gan y plant ac wedyn rhoddodd y Gweinidog, y Parch. J.O. Davies, neges bwrpasol iddynt. Cyn i'r gynulleidfa ymadael derbyniodd pawb dorth fechan o fara. Yn dilyn y cyfarfod hwn daeth yr oedolion ynghyd i roi eu diolch hwythau, o dan arweiniad y Gweinidog. Dyma uchafbwynt yr wythnos, pan gafodd pawb y cyfle i roi eu diolch am eu bendithion di-rif.

Casglwyd 65 yn ystod yr Wyl tuag at waith yr Ysbytai Cenhadol. Diolch i bawb a gymerodd ran ac hefyd i bawb am eu cefnogaeth.

Dweud wrth Gymru

Fel rhan o'r ymgyrch aeth rhai o amgylch y tai yn Ynysybwl i ddweud am yr Iesu ac i ddosbarthu llyfrau. Tra oeddynt wrthi roedd Eglwysi'r Noddfa a'r Tabernacl yn gweddio drostynt.

Noddfa

Ar brynhawn Sul, Hydref 16eg cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y Plant. Roedd y gwasanaeth dwyieithog o dan ofal y plant eu hunain a rhoddwyd neges y Diolchgarwch iddynt gan Dr. Eirian Davies-Jones, gwraig y Gweinidog, (y Parch. Gwilym E. Davies.) Wedi'r gwasanaeth gwerthwyd y cynnyrch o lysiau a ffrwythau tuag at Sudan.

Ar fore dydd Iau, Hydref 27ain daeth nifer ynghyd i gynnal brecwast y Cynhaeaf o dan ofal y Parch. Gwilym E. Davies.

Penderfynnwyd ychwanegu at elw Cyfarfod y Plant ac anfonwyd 100 i Gymorth Cristnogol tuag at eu gwaith yn Sudan.

Llongyfarchiadau

Dymuniadau da i Llinos a Hywel yn dathlu eu priodas arlan yn ddiweddar. Llawer o ddioich i chi, Llinos am eich gwaith fel athrawes gyda'r plant yn Ysgol Sul Noddfa.

Marwolaeth

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mr Llew Richards, Clydach Road a fu farw yn frawychus o sydyn ar Hydref 19eg. Cynhaliwyd ei angladd ar fore Dydd Llun, Hydref 24ain. Gweinyddwyd y gwasanaeth gan y Parch. Gwilym E. Davies. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w wraig, Lilian, ei ferch, Kathleen a'r teulu i gyd.

Ysgol Glanffrwd

Ar fore Hydref 18fed daeth rhieni a ffrindiau'r Ysgol ynghyd i ddathlu'r Cynhaeaf gyda'r plant. Mwynhâodd pawb y gwasanaeth o fawl yn enwedig yr eitemau o'r dosbarthiadau. Roedd y plant wedi dod â llysiau a ffrwythau a dosbarthwyd y rhain i'r henoed yn hen bentref Ynysybwl.

Ysgol Trerobart

Ar fore Hydref 19eg dathlodd Ysgol Trerobart y cynhaeaf trwy gynnal Gwasanaeth Diolchgarwch. Mr Byron Williams, Heol Newydd oedd y siaradwr gwâdd a dosbarthwyd y cynnyrch i hen bobl y pentref.

MEISGYN

Gohebydd Lleol: Mererid Morris.

LLONGYFARCHIADAU

Ychydig yn ôl roeddem yn estyn croeso i Mr a Mrs Emrys Parry pan ddaethant i fyw i'r pentref. estynnwn longyfarchiadau yn awr i'w mab Rhys Parry ar ei lwyddiant, gan iddo gael swydd gyda S4C. Pob dymuniad da iddo yn y gwaith newydd.

CYNGERDD APÊL YR URDD

Daeth llond neuadd i wrando ar blant y pentre yn mynd trwy'u pethe ar nos Fercher, Tachwedd 9fed yn Neuadd y Sgowtiaid. Dyna braf oedd gweld cynifer o blant, mamau a thadau a theidiau a neiniau, heb son am yr athrawon dyfal o dan yr un tô.

Cawsom eitemau gan blant ysgolion Pontyclun, Y Pant, Pendeulwyn, Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant ac Ysgol Gyfun Llanhari. Bu dawnslo disco celfydd iawn ymhlith yr eitemau heb sôn am ganu ac adrodd a sain y recorder, ffidil, allweddellau, clarinet, a'r delyn. Llywiwyd y cyfan yn fedrus tu hwnt gan Margaret Pritchard ac mae'n dioich yn fawr iddi am roi o'i hamser. Cyflwynwyd tusw o flodau iddi ar ddiwedd y noson gan y leuengaf o'r plant, sef Bethan Rees, Meisgyn.

Gwerthwyd rhai o nwyddau yr eisteddfod yno yn ogystal â gwydriaid o win, ac wrth gwrs rhaid oedd cael raffl a hwnnw'n anrheg gan Mr Edward Rea, Ondawel. Yn rhyfedd iawn, Irene Constantinou, o'r teulu trin gwallt, a enillodd y wobr gyntaf!

Cafwyd noson hyfryd ei naws ac mae'n dioich yn fawr i bawb a gyfranodd mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant y noson. Gwnaed elw o £130.

Llythyr... neu ddau

28 Lôn Helyg
Bryntawel
Hydref 6ed

Annwyl Mrs Edwards a Gwenda,

Eglurais beth amser yn ôl nad oeddwn yn credu y byddai o fudd i Alun weld ei fam. Erbyn hyn mae Marian yn fam iddo. Mae Alun yn haeddu hapusrwydd a llonyddwch i dyfu fel pob plentyn naturiol arall.

Os y byddwch yn dal i ysgrifennu ataf fel o'r blaen ni fydd gennyf ddewis ond ymgynghori â'm cyfreithiwr. Mae rhaid imi wneud hyn er mwyn Alun.

Yr eiddoch
Meilir.

Penygroes
Llanfeurig
Tachwedd 25ain

Annwyl Meilir Pritchard,

Feddyliais i erioed y buaswn yn gorfod gwyro i ysgrifennu atoch heb sôn am ofyn cymwynas. Y tro cyntaf imi eich gweld ni theimlais unrhyw gynhesrwydd tuag atoch. Rwyf yn credu mewn siarad plaen. Ni ddeuthum i'ch priodas hefo Gwenda gan y gwyddwn y pryd hwnnw mai cam gwag oedd y bartneriaeth. Roeddwn yn fodlon cario'r groes o fod yn dad i blentyn llwyn a pherth. Ond un 'styfnig fu Gwenda erioed. Pan ddechreuodd yr hen iselder hwnnw arni ar ôl geni'r plentyn mi rois gynnig iddi ddwad yma i fyw. Mi gofiwch inni ddod acw i'w nhôl. Roedd chwaer fy mam yn debyg iawn i Gwenda a gwelais bethau tebyg yn Gwenda y noson honno. Bu farw'r fodryb honno yn y Seilam. Ofn sydd gen i y bydd i'm merch innau golli'i phwyll. Trugarhewch ddyn neu mi ewch i'ch bedd yn ddyn gwael iawn.

T. J. Edwards.

Penygroes
Llanfeurig

Rhagfyr 8fed

Annwyl Alun,

B'le mae fy hogyn bach i? Be' mae Santa am ddwad iti 'leni? Mae gen i hosan fawr goch yn barod a lot fawr o bresanta. Mae Nain am 'neud cyflaith. Cofia di sgwennu cardyn i Nain a Taid.

Cariad mawr,
Mami X

Penygroes
Llanfeurig

Rhagfyr 19

Annwyl Meilir,

Mae hi bron yn Ddolig ac mae'n tŷ ni yn wag. Aethpwyd â Gwenda bach i'r ysbyty neithiwr. Roedd hi wedi peidio bwyta a chysgu erbyn hyn. Mae ei llofft fach yn llawn o anrhegion 'Dolig.

Digalon ydy hi arnon ni heno. Gobeithio y cosbiff Duw chi ac y cewch chi uffarn ar y ddaear.

Phyllis Edwards.

Nadolig llawen, Alun bach.
Cofia adael llefrith i Santa. Mi gawn ni hwyl fory yn cawn? Ydy'r hen bobol 'na yn gas hefo chdi, siwgwr. Deud ti wrth Mam, cariad.
Nos da a sws fawr i Alun Bach

Mami

X X X

Y PWYLLGOR DATBLYGU

Ydych chi'n cael eich drysu rhwng Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg, Y Bwrdd Iaith, Cyngor Cwricwlwm Dros Gymru, Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru ac ati?

Wel, mewn cyfarfod hynod o ddiddorol y tymor hon yn Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau, Beddau (ysgol wych, newydd sbon) esboniodd Wyn Thomas, Swyddog Datblygu, Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg, tipyn am ymdrechion y Pwyllgor.

Prif waith y Pwyllgor eleni oedd paratoi adroddiad i'r Swyddfa Gymreig sy'n galw am ragolen eang i gefnogi Addysg Gymraeg. Ymhlith y cynigion yw paratoi defnydd addysgol newydd, datblygu Addysg Feithrin ac ymdrech cyhoeddusrwydd.

Er bod twf mewn Addysg Gymraeg yn ein ardal ni mae'r sefyllfa mewn rhai o'r 'ardaloedd Cymraeg' yn achosi pryder. Mae'r Pwyllgor yn credu bod derbyn ei gynigion yn angenrheidiol i sicrhau y bydd yr iaith yn parhau trwy'r ganrif nesaf, ond does dim sicrwydd y bydd y Swyddfa Gymreig yn fodlon darparu digon o arian i dalu am y cynigion.

Penderfynodd y cyfarfod i alw ar bob rhiant i ysgrifennu llythyr syml at y Swyddfa Gymreig, Parc Cathays, Caerdydd i ofyn am gyllideb ddigonol i gyflawni cynlluniau'r Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg.

Os ydych dros Addysg Gymraeg - ysgrifennwch nawr, plîs!

PRIDD O'R PRIDD



Dyma lyfr newydd arall a gyhoeddir erbyn y Nadolig gan Wasg Tâf. Hunangofiant yw'r llyfr gan y Parch T.J. Davies, gweinidog Bethlehem Gwaelod y Garth, ac ynddo adroddir hanes ei fagwraeth ym mro amaethyddol Gogledd Sir Aberteifi yn y cyfnod cyn y rhyfel. Mab fferm a aeth i'r weinidogaeth ydoedd a cheir yma ddarlun byw o fywyd crefyddol a gwleidyddol y genedl yn y cyfnod. Ond yn bennaf y mae **Pridd o'r Pridd** yn gronicl cymdeithasol cofiadwy o'i fro enedigol ac o ffordd o fyw sydd bellach ar fin dod i ben.

Dyma sylwadau R. Geraint Gruffudd yn el feirniadaeth o'r llyfr yng Nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith Eisteddfod Abergwaun -

"Ni all yr awdur hwn ysgrifennu yn anniddorol, ac y mae ei farn ddi-flewyn-ar-dafod ar besonau a sefydliadau'n ychwanegu yn ddirfawr at y blas a geir o ddarllen ei waith".

Anrheg Nadolig ardderchog ar werth am £3.95.

GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: E. June Huws.

CRONFA GERDDORIAETH YR YSGOL

Roedd y disgo a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Ffynnon Taf yn llwyddiant ysgubol; a chodwyd yn agos i £400. Diolch i'r rhieni a llu o gyn-ddisgyblion Ysgol Gynradd Gwaelod y garth am eu cefnogaeth.

Mae'n bleser o'r mwyaf elch hysbysu fod y delyn wedi cyrraedd ers rhyw fis, gwaith celfydd Alun Thomas, mab John Thomas, teulu a fu yn byw yn y pentref yma cyn symud i Gasbialdd yn Nyfed.

Er i ni gael y delyn mae'r gronfa i barhau a gobeithiwn fod o gymorth i'r Ysgol ynglŷn â'i hanghenion cerddorol eraill.

GRŴP HEDDWCH

Bu noson Gaws a Gwin yn Wood Cottage, Georgetown nos Sadwrn 19ed Tachwedd. Roedd Tearcraft a Greenpeace wedi dod â nwyddau i'w gwerthu ac yn ôl y trefnydd Theresa Rees roedd yn llwyddiant mawr.

Mae croeso mawr i aelodau newydd ddod i Wood Cottage ar y drydedd nos Iau bob mis am 8.00 pm.

APÊL YR URDD

Yn dilyn llwyddiant noson Calan Gaeaf y plant cynhaliodd pwyllgor Urdd Gwaelod y Garth, Ffair Sborion yn Festri Bethlehemar 12ed o Dachwedd. Roedd yn 'bnawn bywiog gyda llawer yn blês a'u bargeinion; a'r pwyllgor yn blê lawn a'r elw o dros £125. Mae'r gweithgareddau sydd ar y gweill am y dyfodol yn cynnwys canu carolau a noson y Fari Lwyd. Dewch i gefnogi'r apêl.

ORGAN NEWYDD BETHLEHEM

Mae'r capel wedi prynu organ newydd ar ôl i'r hen un chwythu'i phiwc yn ddiweddar. Bu cyngerdd arbennig i godi arian at yr offeryn gyda Huw Tregelles Williams a Merched y Garth yn cyfrannu o'u dawn wefreiddiol. Noson gampus yn ôl y rhai oedd yno.

CHWAREL STEETLEY

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus ar Rhagfyr 1af yn Neuadd y Pentref i drafod cynlluniau Steetley i ymestyn y chwarel. Mae cryn bryder ynglŷn ag effaith y chwarel ar yr amgylchfyd ac effaith y dirgryniadau o'r tanio cyson ar fframwaith tai cyfagos.

Mae grŵp elsioes wedi ei sefydlu i wrthwynebu cynlluniau Steetley a bydd angen parhau'r frwydr ym mhwyllgorau'r Cyngor Sir.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

JUDO

Llongyfarchiadau i Ceri Jones am gyrraedd y nod uchaf, sef y 'Gwregus Ddu', mewn Judo. Mab yw i Mr a Mrs walter Jones, Heol y Gilfach, Tonyrefail. Cafodd Ceri ei addysg yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail, Ysgol Gyfun Llanharl a Choleg y Brifysgol Abertawe, ac mae yn gweithio ym Mryste ar hyn o bryd. Peth gore fydd i mi, beth bynnag, beidio a phrocio cynnen â Ceri ond cadw ar yr ochr iawn iddo!

Llongyfarchiadau Ceri.

CAPEL Y TON

Nos Sul 20fed o Dachwedd gwasanaethwyd yng Nghapel y Ton gan y Parchedig S.M. Bowen o'r Porth. Roedd yn dda ei weld yn edrych cystal ar ôl yr aflechyd mae wedi ei ddioddef yn ystod y flwyddyn. Treuliodd rai wythnosau yn ysbytai Dwyrain Morgannwg a Felindre ger Caerdydd. Mae wedi ymsefydlu yn Porth ers peth amser bellach ar ôl rhai blynyddoedd yn Llanilltud Faerdre. Pob bendith iddo a'i deulu.

AINON

Mr Glyn Lansley oedd yn gwasanaethu yn Ainon ar brynhawn Sul yr 20fed o Dachwedd. Mae Gwasanaethau Sul Ainon yn y prynhawn dros y gaeaf. Hyfryd oedd gweld Mr Emlyn Llewelyn yn edrych yn well ar ôl gwaeledd.

O ran tegwch i Eglwys Ainon ymddiheurwn am y camgymeriad yn y rhifyn diwethaf o'r Tafod. Mrs Davies fu farw o ganlyniad i'r ddamwain yn ystod mis Awst ac nid y Parch Tom Davies. Bu ef yn weinidog Ainon am rai blynyddoedd. Mae'n ddrwg iawn gennym am y camgymeriad.

GOBAITH MEWN ADFYD

Mae llyfryn bach yn dwyn y teitl uchod yn cael ei ddosbarthu ar hyn o bryd. Mae'r llyfryn dwyieithog wedi derbyn cefnogaeth yr holl enwadau eglwysig ac mae'r Eglwys Bentecostal yn ei ddosbarthu yn y Ton.

YMWELIAD Y GOHEBYDD

Cefais y fraint a'r anrhydedd o fod yn westai yng nghyfarfod cyntaf y tymor o weithgareddau pobl Ifanc Capel Bryn Iwan, Cynwyl Elfed, yr eglwys lle'm magwyd. Roedd yn hyfryd cael bod gartref fel pe tai. Bum yn dangos tafl-luniau (slelds) amrywiol. Casglwyd dros dros hanner can punt tuag at Apel Plant Mewn Angen ar y noson hon.

YSGOL GYMRAEG TONYREFAIL

Ar ddydd Gwener y deunawfed o Dachwedd, bu safon pedwar, a'u hathro Mr Huw Morris, yn brysur lawn gyda arwerthiant yn codi arian tuag at Apêl Plant Mewn Angen. Casglwyd dros ddau can punt yn ystod y dydd. Roedd yn ymdrech wych ac maent yn haeddu pob cymeradwyaeth. Mae'r wythnosau nesaf i fod yn brysur lawn yn yr ysgol, yn paratoi ac ymarfer pantomeim a chyngherddau erbyn y Nadolig.

Dathliadau'r Nadolig
yn
AMGUEDDFA WERIN CYMRU
Sain Ffagan, Caerdydd

Nos Iau a Nos Wener, 15 a 16
Rhagfyr 1988
6.00pm - 10.00pm

Oedolion £2.00 Plant £1.00

Y BEDDAU

Gohebydd lleol: Huw Morris

FFALABALAM

Yn ystod y mis gwahoddwyd grŵp o blant 4 mlwydd oed i fynd i stiwdio HTV Caerdydd i recordio cân ar gyfer y rhaglen 'Ffalabalam'. Darlledir y rhaglen ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 21ain.

YSGOL CASTELLAU

Cynhaliwyd Noson Lyfrau lwyddiannus yn yr ysgol ar Dachwedd 23. Yna ar Dachwedd 25 trefnwyd Disgo gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol.

APEL YR URDD

Yn ystod wythnos cyntaf Rhagfyr cynhaliwyd dau achlysur tuag at Eisteddfod 1991. Ar Ddydd Mawrth Rhagfyr 6ed cynhaliwyd cyngerdd gan blant Ysgol Gymraeg Castellau yn y Neuadd Lês. Yna ar Rhagfyr 8ed cynhaliwyd Disgo'r Chwedegau i'r oedolion.

PA GEM GENEDLAETHOL?

LLYTHYR i'r Tafod
Annwyl Olygydd,
Fe hoffwn i gytuno'n llwyr gyda sylwadau'r Gogleddwr Alltud ynglyn â 'Rygbi - y Gêm Genedlaethol?'

Mae honiad Gareth Davies, cyn-faswr Cymru, taw gêm y bobol yw Rygbi, yn naturiol yn adlewyrchu ei duedd bersonol. Hefyd pwy ydyw'r Saeson i awgrymu taw datganiad cenedlaethol yw Rygbi pan mae'r diawled yn gwrthod chwarae pêl droed yn ein herbyn. Ac, ond yw poblogaeth De Ddwyrain Cymru yn dwp i dderbyn gosodiad Gareth Davies? Jest oherwydd ma miliwn a hanner o nhw, pwy mae nhw'n credu i nhw?

A pheidied neb ag anghofio araloedd y Gogledd. Rwy'n derbyn bod llawer mwy o Glyblau Rygbi yn y Gogledd nawr nac yn y gorffennol ond does neb o Lerpwl yn mofyn chwarae gyda nhw fel y mae nhw yn nhimau pel droed y Gogledd.

Yn sicr mae lot o Rygbi ar y teledu, a hyn mwy na thebyg i roi gwaith i'r llu o gyn-chwaraewyr sy'n edrych am gelniog neu ddwy. Mae'n llawer gwell gen i wylio Everton yn chwarae gyda'r Cymry blaenllaw fel Neville Southall, Kevin Ratcliffe a Pat Van den Howe.

I ddweud y gwir mae Snwcer yn llawer mwy poblogaidd na'r ddau. Ond byddai'n braf clywed yr anthemau cyn gêm fawr rhwng Doug Mountjoy a Steven Hendry.

Ac wrth sôn am boblogrwydd teledu, beth am gêm griced rhwng 'Neighbours' ac 'Eastenders'?

Clywch, clywch meddai i sylwadau'r Gogleddwr am y meddod yn y Maes Genedlaethol. Mae cysylltiadau alcohol gyda rygbi yn mynd nol trwy hanes, tafarn oedd y Cardiff Arms yng nghanol y ganrif ddiwetha. Cofiwch mae eisiau rhywbeth i wynebu ambell i gêm y dyddiau 'ma. Lwcus bod trigain mil arall yna i gadw cwmni.

Roeddwn yn hoffi lein y Gogleddwr am y nifer sy'n pysgota. Digon i godi calon Moc Morgan, Arch Dderwydd y Ffon ac arwr y cannoedd ar filoedd o fachwyr Cymru.

Hefyd, ond bydde pwynt gan Leighton Rees, un o athletwyr blaenllaw y wlad sydd yn eslampi i gannoedd ar filoedd o ddartwyr Cymru?

Ond yn gyffredinol i gloi, diolch yn fawr i'r gwr doeth o'r Gogledd am ddangos taw lleiafrif meddwol yw chwaraewyr a chefnogwyr rygbi. Efalle tro nesaf y byddai'n bosib i anelu ei sylwadau at y rhai sy'n mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol. Lleiafrif yw nhw, sy'n credu taw laith y lleiafrif yw'r laith Genedlaethol.

Hwntw sydd wedi gweld y goleuni.

HANES EIN TIM CENEDLAETHOL

Ni fu cyfnod erioed yn hanes rygbi Cymru mor eithriadol bwysig â'r pedwar mis ar ddeg rhwng Mai 1987 a Mehefin 1988. Mae llyfr newydd, 'Gaeaf Gwyn a Hafau Duon' gan Thomas Davies a gyhoeddwyd gan Gwasg Carreg Gwalch yn dilyn hanes Cymru yng Nghwpan y Byd, ym Mhencampwriaeth y Pum Gwlad a'r ymweliad â Seland Newydd. Ynddo ceir adroddiadau ar y gêmau ynghyd â'r holl ystadegau a barn chwaraewyr, gohebwyr a hyfforddwyr. Ymwelodd yr awdur ag Awstralia a Seland Newydd yn ystod Cwpan y Byd, ac fe welodd bedair gêm Cymru yn y Bencampwriaeth, a phob un o'r wyth gêm a chwaraewyd yn haf 1988 yng "Ngwlad y Cwmwl Gwyn Hir". Ceir dadansoddiad manwl ganddo o hoi ornestau Cymru ar sail yr hyn a welodd drosto'i hun ac a glywodd gan y rheiny y perchir eu barn ym myd y bêl hirgron.

Pris y llyfr yw £2.90 ac mae'n gwneud anrheg Nadolig ardderchog i ddilynwyr un o'n gemau cenedlaethol.

CYNLLUN IECHYD DA

Dyma gyfle i chi gyfrannu i ddatblygiad bywydau plant eich ardal. Cynllun o addysg iechyd syml iawn yw hwn sy'n lledaenu gwybodaeth fuddiol mewn ffordd ddiddorol. Mae na lyfrau gwaith ar gael ar gyfer plant Ysgolion Sul, Ysgolion dyddiol, Clyblau gyda'r hwyr, Yr Urdd.

Mae Mis Ionawr yn amser da i chi rhoi cychwyn ar y gwaith. Beth am ddechrau grŵp bach nawr?

Am wybodaeth anfoner at:
CYNLLUN IECHYD DA
112 Heol Albany
Caerdydd
0222 493895.

SALEM AR Y BRIG

Yn dilyn rhaglen "Y Byd ar Bedwar" am Ysgolion Cymraeg y De Ddwyrain a'r laith, ymddengys ei bod yn ffasiwn i honni nad oes gan gapeli ddim i'w gynnig i Gymry ifanc heddiw.

Efallai mai doeth y byddai i'r bobl hyn (sy'n am i yn siarad o anwybodaeth) daro ar ymweliad â chystadlaethau blynyddol CIC. Ar Sadwrn, Tachwedd 19eg daeth 7 tîm brwd i gystadlu am darian CIC - 6 o ddalgylch y Tafod ac 1 o gylch yr Hogwr. Roedd y cystadleuwyr yn ffyddlonlaid yr Ysgolion Cyfun Cymraeg a'r Capeli. Dyma pa eglwysi enillodd y gwahanol gystadlaethau:-

Pêl droed laf- Tabernacl Efailisaf 1
Pêl rwyd laf - Salem Tonteg
Nofio Merched laf - Salem Tonteg
Nofio Bechgyn laf - Tabernacl Efailisaf 1
Drama laf - Tabernacl Efailisaf 1
Cwis laf - Salem Tonteg

Y sgoriau ar ddiwedd y dydd oedd:-

laf	Salem, Tonteg	108
2il	Sardis/Tabernacl, Ynysybwl	102.5
3ydd	Tabernacl, Efailisaf 1	102
4ydd	Tabernacl, Efailisaf 2	79
5ed	Tabernacl, Penybont	67.5
6ed	Y Babell, Groesfaen	66
7fed	Tabernacl, Efailisaf 3	43

Fel dengys y sgoriau, roedd diwedd y dydd yn gyffrous gyda'r cyfan yn dibynnu ar y cwis. Salem, Tonteg oedd yn fuddugol, ac fe gyflwynwyd y darian gan Jill Harries o MIA (Mudiad Ieuenctid yr Annibynwyr).

Carwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth - mae brwdfrydedd yr eglwysi, yr athrawon chwaraeon a'r bobl ifanc yn galondid blynyddol. Bydd Salem yn amddiffyn eu tarian y flwyddyn nesaf, ac mae croeso i unrhyw eglwys gystadlu. Am fanylion pellach ffoniwch Geraint Rees ar 0443 205944.



Nadolig Llawen

Mae hi bron yn amser!
Gwasanaeth carolau, cyngerdd,
panto, coeden Nadolig, partion,
a Siôn Corn.

HWRE!



17, 1, 5, 18, 14, 13, 10.
15, 1, 27, 7, 17.







Anrhegion yw Niwio

Geiriau'r Nadolig

celyn
uchelwydd
seren
baban
anrhegion
doethion
coeden
stabl
angel
asyn

I	C	C	O	E	D	E	N	A
W	E	M	G	U	S	D	T	N
A	L	U	Y	CH	F	O	FF	RH
N	Y	R	S	E	R	E	N	E
G	N	I	T	L	W	TH	E	G
E	T	C	A	W	A	I	L	I
L	A	N	B	Y	S	O	B	O
M	O	R	L	DD	Y	N	C	N
B	A	B	A	N	N	R	I	W